Y Pwyllgor Cyllid
—
Finance Committee

Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCyllid@Senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCyllid
0300 200 6364
—
Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddFinance@senedd.wales
senedd.wales/SeneddFinance
0300 200 6364

Y Gwir Anrhydeddus Neil O'Brien AS
Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol dros
Ffyniant Bro, yr Undeb a'r Cyfansoddiad

11 Mai 2022

Annwyl Mr O'Brien

**Ymchwiliad y Pwyllgor Cyllid i Drefniadau Ariannu ar ôl Gadael yr UE**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 6 Mai 2022, ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau, y Gwir Anrhydeddus Michael Gove AS. Trafododd y Pwyllgor Cyllid eich ymateb yn ystod ein cyfarfod ar 11 Mai 2022. Ar ran y Pwyllgor Cyllid, dyma fynegi ein gofid mawr eich bod wedi gwrthod ein gwahoddiad i roi tystiolaeth ar ein hymchwiliad i drefniadau ariannu ar ôl gadael yr UE. At hynny, mae'n siomedig nad yw eich llythyr yn cydnabod ein gwahoddiad yn ffurfiol – sef gwahoddiad y bu'n rhaid i'ch swyddogion gadarnhau'r ymateb iddo wedi hynny – nac yn datgan a ydych yn fodlon ymgysylltu â gwaith y Pwyllgor yn y maes hwn ai peidio.

Yn ôl eich cyfaddefiad eich hun, mae hwn yn bolisi blaenllaw gan Lywodraeth y DU, ac yn dilyn ymadawiad y DU â'r UE, mae'r paratoadau ar gyfer disodli cyllid yr UE a'r effaith y bydd hynny'n ei chael ar Gymru wedi parhau i fod o bwys mawr i'r Pwyllgor hwn.

Rydym yn eich annog i ailystyried ein gwahoddiad i fod yn bresennol mewn un o gyfarfodydd y Pwyllgor, er mwyn rhoi'r cyfle i Aelodau o'r Senedd i ymgysylltu â Llywodraeth y DU ar y mater pwysig hwn. Rydym yn nodi bod yr Ysgrifennydd Gwladol, Mr Gove, wedi ymddangos gerbron Pwyllgor Cyllid a Gweinyddiaeth Gyhoeddus Senedd yr Alban ar 24 Chwefror, mewn perthynas â disodli Cronfeydd Strwythurol yr UE a dywedodd:

> *"The more that UK Government ministers can appear in the Scottish Parliament to answer your questions, the more that demonstrates how devolution can and should work.... It is both a duty and a pleasure to come here."*

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech roi gwybod i mi a ydych yn fodlon bod yn bresennol mewn sesiwn debyg gyda'r Pwyllgor Cyllid. Mae gennym nifer o sesiynau tystiolaeth wedi'u hamserlennu cyn toriad yr haf, neu, o ystyried pwysigrwydd yr ymchwiliad hwn, byddem yn fodlon trefnu cyfarfod pan fo'n gyfleus i chi ac y gellir ei hwyluso drwy Zoom er mwyn cymryd cyn lleied o'ch amser ag y bo modd.

Fel y Gweinidog sy'n gyfrifol am ffyniant bro, yr Undeb a'r Cyfansoddiad, hyderaf eich bod yn gwerthfawrogi diddordeb y Pwyllgor yn y maes hwn ac yn gobeithio y byddwch yn estyn yr un cwrteisi i ddatganoli a'r broses ddemocrataidd yng Nghymru ag a fynegwyd i'n cymheiriaid yn Senedd yr Alban. .

Byddem yn gwerthfawrogi petai eich hymateb yn dod i law erbyn 25 Mai.

Yn gywir,



Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg | We welcome correspondence in Welsh or English.